# COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD 7 MAI 2025

Yn bresennol: Y Cadeirydd Hefin Jones

Y Cynghorwyr: Sarah Hughes, Aranli Thomas , Aron Roberts, Enid Roberts, Idwal Williams.

Hefyd yn bresennol: Karen Hughes (Swyddog Ariannol)
Lona Williams (Clerc)

Ymddiheuriadau: Elfed Roberts (Cynghorydd Sir). Annest Smith, Richard Davies, A. Huw Jones , Keith O'Brien , Llywarch Davies, Iwan Jones

Cafwyd munud o dawelwch ar gychwyn y cyfarfod er cof am Mrs Nesta Wyn Jones, Mam y Cynghorydd Annest Smith.

## 2451 - COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y 5ed o Ebrill 2025 fel y rhai cywir gan y Cadeirydd.

## 2452 – ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Aron Roberts yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Aranli Thomas yn Is-gadeirydd.
Cytunwyd i gadarnhau aelodau'r Is-bwyllgorau yn y cyfarfod nesaf.

## 2453 - MATERION YN CODI O'R COFNODION

1401(3b) a 2191(1) - Garej Lôn – Adroddwyd bod e-bost wedi ei yrru i'r Heddlu ac i Gyngor Gwynedd i ofyn am grynodeb o ddigwyddiadau. Cafwyd ymateb gan Ms Gwenno Mai Owen yn nodi ei bod wedi gyrru'r e-bost ymlaen i Mr Gareth Jones, Pennaeth Cynorthwyol yr Adran. Penderfynwyd i ddisgwyl am ymateb gan yr Heddlu a'r Cyngor er mwyn eu gyrru ymlaen i Liz Saville Roberts.

1774(4) - Gardd Sylvia Crowe, Sgwar y Ddraig a'r Adeilad Man Gwylio – Adroddwyd nad oedd adroddiad pellach, a na fydd adroddiad pellach nes y bydden nhw wedi cael arian.

1842(2) a 1878(7) a 2024(4) - Cyflymder a Goleuadau Stryd Bronaber/ Damweiniau ar ffordd A470/A4212 – Adroddwyd na fydd modd i ni wneud unrhyw beth ynglŷn ar mater yma hyd nes y cawn y canllawiau newydd. Penderfynwyd i gadw'r cofnod hwn ar y cofnodion hyd nes y byddai'r canllawiau newydd yn dod i law. Penderfynwyd i yrru e-bost i'r Heddlu i ofyn am fan cyflymder. A penderfynwyd i ofyn i ysgol Bro Hedd Wyn pe bai ganddynt ddiddordeb i ofyn i'r disgyblion i greu posteri i arafu, fel y mae nhw wedi gwneud yn y Ganllwyd.

2068(2) - Mynwent Pencefn – Adroddodd y Swyddog Ariannol bod y pensaer Mr Rhys Davies wedi e-bostio gyda asesiad risg lefel 1 fel y roedd angen er mwyn derbyn adroddiad yn ôl. Cafwyd 3 pris i law a cytunwyd derbyn pris Bold Environmental.

2099(6) - Marciau Gwyn y Pentref/Maes Parcio Bryn Glas – Cytunwyd y byddem yn aros i'r Cynghorydd Elfed Roberts roi adroddiad yn y cyfarfod nesaf ac yn gyrru e-bost i Adrian Williams i ofyn am ddiweddariad.

2247(2) - Meinciau Gardd Salem – Adroddwyd nad oedd Mr Robat Jones am wneud y gwaith ar meinciau gardd Salem. Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Aranli yn gofyn am bris gan Mr Kevin Williams am brynnu'r meinciau ac i'w gosod.

2252(3) - Cofeb Hedd Wyn (Naomi Jones Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) – Adroddodd y Cyngorydd Hefin Jones nad oedd diweddariad pellach.

2255(1) - Pont droed Llyn Trawsfynydd – Adroddwyd nad oedd diweddariad pellach ac ein bod yn parhau i aros am ymgynghoriad sydd am ddigwydd gyda trigolion y pentref er mwyn gweld beth yr hoffent eu gweld yn digwydd gyda'r bont droed o fewn y flwyddyn nesaf.

2333(11) - Ffordd tu cefn i 1-6 Bro Prysor – Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan Mr Mark Mortimer yn nodi eu bod wedi ymweld ar safle yn dilyn y gwyn. Rhoddwyd llythyr wedi i'r perchennog yr eiddo am y cerbydau a'r offer sydd ar ei dir o. Doedd Cyngor Gwynedd ddim o'r farn bod niwsans statudol yn bodoli yma. Rhoddwyd Cyngor i'r perchennog yma. Penderfynwyd i ymateb i'r e-bost yn nodi ein bod yn siomedig nad oedd dim wedi ei wneud ynglŷn ar mater.

2334(1) - Gwefan y Cyngor – Adroddodd y Swyddog Ariannol ei bod wedi anfon copi drafft o'r wefan i bawb er mwyn cael golwg arni. Dywedwyd y bydd angen ychwanegu un tab gyda gwybodaeth ddefnyddiol arno. Adroddwyd bod ambell i wall ar y wefan e.e enwau anghywir arni sydd angen eu cywiro. Saesneg oedd yr iaith gyntaf oedd yn ymddangos ar y wefan wrth glicio ar y linc yn hytrach na'r Gymraeg. Penderfynwyd y byddai'r Swyddog Ariannol yn cysylltu gyda GWE Cambrian er mwyn newid hynny. Penderfynwyd y byddai'r cofnodion a'r agenda ar y safle we o Ionawr 2024. Os oedd angen gweld cofnodion y Cyngor cyn hynny yna bydd angen i'r unigolyn gysylltu gyda'r Cyngor.

2379(4) Bryn y Gofeb – Adroddwyd bod y gwaith wedi cael ei gwblhau gan gwmni Tir a Choed, a cytunwyd i dalu'r bil pan y daw gan bod y Cyngor wedi derbyn pris ganddynt o flaen llaw.

2409(1) – Bont Afon Prysor – Roedd ansicrwydd os oedd y gwaith wedi ei gwblhau. Cytunwyd i gadarnhau os oedd y gwaith wedi'i gwblhau yn y cyfarfod nesaf.

2409(2) – Cerbydau y Maes Parcio - Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan Mr Mark Montimer yn nodi bod hyn yn fater sifil, a nad yw hawliau yn faterion all eu hadran ni weithredu arno.

2416(3) - Ffordd y Pentref – Adroddwyd bod rhywfaint o waith wedi ei wneud o amgylch y pentref i lenwi tyllau yn y ffyrdd. Adroddwyd bod tyllau yn Bont Afon Prysor wedi cael 'instant tar' arni ond ei fod wedi dod o'r tyllau'n barod. Penderfynwyd i gyfeirio'r mater at Mr Adrian Williams. Atgoffwyd I'r cynghorwyr yrru lluniau o unrhyw dyllau a welir o amgylch y pentref sy'n beryglus .

2417(3) - Tender ar gyfer torri gwair y Llwybrau Cyhoeddus, Mynwentydd Pencefn a Salem, Gardd Salem, Cae Chwarae Ty Llwyd a'r tir o amgylch Cofeb Hedd Wyn – Adroddodd y Swyddog Ariannol bod Mr Phil Andrews am dorri'r gwair yng Ngardd Salem, o amgylch cofeb Hedd Wyn, sgwâr y pentref ac i lawr ym Mryn Glas. Paratowyd cytundeb iddo gan y Swyddog Ariannol a arwyddwyd y gytundeb gan y Cadeirydd. Adroddwyd y bydd Mr Tom Edwards yn torri gwair mynwentydd Pen Cefn a Salem dair gwaith y flwyddyn am bris o £1300 y toriad. Adroddodd y Swyddog Ariannol bod Mr Trystan Griffiths wedi mynegi diddordeb i dorri'r gwair gweddill y llwybrau cyhoeddus, nid yw hyn wedi ei gadarnhau eto.

2429(2) - Mynwent Salem – Adroddodd y Cynghorydd Enid Roberts nad oedd Mr Robat Jones wedi dod yn ôl ati gyda pris. Adroddwyd bod pryder bod cyflwr y wal yn gwaethygu. Cytunwyd i ofyn i Mr Robat Sion Jones am bris i ail godi'r wal.

2429(4) - Ffordd gefn 7-12 Bro Prysor – Nid oedd ymateb pellach i'r e-bost ddau fis yn ôl yn nodi bod yr ymholiad wedi ei drosglwyddo i adran benodol. Penderfynwyd ofyn am ddiweddariad.

2435(1) - Ffens bren rhwng Maes Graean a Cefn Gelltgwm – Doedd dim diweddariad pellach penderfynwyd i ail gyfeirio'r mater at Mr Merfyn Morris.

2435(2) - Byrddau Dehongli ac Arwydd y Llyn - Adroddodd y Clerc nad oedd wedi derbyn ymateb a cytunwyd i yrru gohebiaeth am y pedwerydd tro i Gyngor Gwynedd yn gofyn os oes byrddau dehongli am ddod yn eu lle.

2440(3) – Cae Chwarae Ty Llwyd - Adroddwyd bod y Clerc wedi derbyn e-bost gan gyngor tref Ffestiniog eu bod wedi cyflwyno cais am gyllid drwy Gynllun Llewyrch o'r Llechi, sydd wedi'i weinyddu gan Gyngor Gwynedd. Ar ôl i'r cais gael ei gymeradwyo, bu'n rhaid dilyn gweithdrefn gaffael ffurfiol. Rhannwyd dolen er mwyn edrych am grantiau cyffelyb. Gofynwyd i G L Jones am ddyluniad i roi yn lle'r hen ffram ddringo, a rhannwyd cynllun o'r safle gyda ffram a fyddai'n costio £16,250. Adroddwyd bod y Cynghorydd Richard Davies wedi rhannu manylion Elin Vaughan Pritchard Swyddog Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd gyda'r Swyddog Ariannol ac yr oedd wedi cadarnhau bod fynhonellau arian ar gael ar gyfer caeau chwarae. Cytunwyd y byddai'r Swyddog Ariannol yn gyrru'r pris G L Jones ymlaen i Elin Vaughan Jones, ac yn rhannu'r cynllun gyda'r Cynghorydd Aron Roberts er mwyn ei ddangos i drigolion Stesion.

2440(5) - Arian Llys Ednowain - Adroddodd y Swyddog Ariannol ei bod wedi cysylltu gyda Adra i holi am werthu tir Cae Bro Prysor yng ngwaelod y pentref. Cafwyd ymateb gan Mr Michael Evans yn nodi ei fod yn hapus i drafod y posibilrwydd o werthu'r cae i'r Cyngor cymuned. Cytunwyd y byddai'r Swyddog Ariannol yn cysylltu gyda'r Mr Evans i holi pe bai'n awyddus i gyfarfod dros teams neu wyneb yn wyneb. Awgrymodd y Cynghorydd Hefin Jones y buasem yn medru cael cerbyd cymunedol i'r pentref gydag arian Llys Ednowain.

2441(2) - Bron Gwyndy – Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd yn ymchwilio i mewn i'r tŷ. Penderfynwyd i ail yrru'r e-bost I'r Cyngor am Fron Gwyndŷ.

2441(3) – Llwybr beics o amgylch y Llyn - Adroddoddwyd bod y mater ynglŷn ar gwaith y ffens ar y llwybr beics o amgylch y llyn yn parhau. Mae 3 Cyngor gwahanol sef Trawsfynydd, Talsarnau a Gellilydan ynghlwm yn y llwybr beiciau gan bod y llwybr yn mynd drwy'r 3 plwyf. Adroddwyd y bydd rhaid aros i Elfed Roberts y Cynghorydd Sir adrodd yn ôl gyda diweddariad.

2441(8) - Ysgol Bro Hedd Wyn – Yn dilyn ymateb Mr Gwern ap Rhisiart cytunwyd cadw'r mater ar y cofnodion er mwyn cael adborth gan Elfed Roberts y Cynghorydd Sir.

## 2454 - GOHEBIAETH

(1) Cais Rhif: NP5/78/LB412P. Gorchuddio to fflat presennol hefo to brig i estyniad cefn, amnewid rendrad presennol hefo cladin carreg i gyd-fynd gyda'r presennol, ac i amnewid ffenest cefn hefo drws mewn strwythur cwrtil rhestredig. The Bungalow, Rhiw Goch Inn, Bronaber. LL41 4UY.

(2) Cais Rhif: NP5/78/LB412N. Caniatâd Adeilad Rhestredig i orchuddio to fflat presennol hefo do brig i estyniad cefn, amnewid rendrad presennol hefo cladin carreg i gyd-fynd hefo'r presennol, ac i amnewid ffenest cefn hefo drws mewn strwythur cwrtil rhestredig. The Bungalow, Rhiw Goch Inn, Bronaber. LL41 4UY.

(3) Cais Rhif: NP5/78/593 Estyniad i flaen y caban. Caban 124, Pentref Gwyliau Trawsfynydd, Bronaber. LL41 4YB

(4) Rhybydd cau'r ffordd ar yr 22ain o Fai, 2025, o'r Ffordd di-Ddosbarth a adwaenir fel Chapel Street, Trawsfynydd o bwynt ger ei chyffordd gyda Pen y Garreg gan deithio mewn cyfeiriad gogledd orllewinol hyd at bwynt ger Aelwyd yr Urdd, Chapel Street, Trawsfynydd. Bydd gwaith adfer pibell gyfathrebu ar ran Dŵr Cymru yn cael ei gwblhau. Disgwylir y gellir cwblhau'r gwaith o fewn 1 diwrnod ond nid mwy na 3 diwrnod.

(5) Cafwyd e-bost gan Mr Myfyr Tomos yn codi pryder am gyflwr ffordd hynafol Sarn Helen sy'n arwain o derfyn tir Tyddyn Mawr, lawr at ffin y plwy' ger Penmaen. Mae'n lwybr cerdded a beicio eithriadol o boblogaidd ac yn rhan o daith beicio Traws Eryri. Mae wedi cyrraedd y fath stad erbyn hyn lle mae pobol, yn enwedig teuluoedd gyda phlant, yn gorfod troi yn ôl oherwydd safon beryglus y ffordd. Cytunwyd i yrru'r e-bost ymlaen i Mr Gwyn Evans o adran yr amgylchedd.

## 2455 - ADRODDIAD ARIANNOL

(1) Derbyniwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol.

(2) Adroddwyd bod y cyfrif Money Manager wedi ei agor.

(3) Adroddwyd bod cytundeb wedi ei wneud gyda Mr Tom Edwards a Mr Phil Andrews.

(4) Mae'r Swyddog Ariannol wrthi'n paratoi cyfrifon er mwyn eu hanfon i Gyngor Gwynedd ar gyfer yr Archwiliad Mewnol.

## 2456 - MATERION I'W TRAFOD AR Y PRYD

(1) Adroddodd y Cynghorydd Idwal Williams bod pwyllgor y Neuadd wedi cyfarfod i drafod a roedd y mwyafrif o'r pwyllgor yn gefnogol i gael diod feddwol yn y Neuadd. Cafwyd hyd i'r cyfansoddiad o 1971. Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones nad oedd sôn am atal diod feddwol ynddo. Penderfynwyd i ail chwilio rhag ofn bod dogfen arall oedd yn sôn am ddiod feddwol.

(2) Adroddodd y Clerc bod yr e-bost wedi ei gyfeirio ymlaen ynglŷn a gosod twmpathau yn Stesion, Trawsfynydd. Derbynwyd ymateb gan Mr Andrew Gregson yn nodi bod materion goryrru ar eu rhwydwaith yn cael eu gorfodi gan Wasanaeth Heddlu Gogledd Cymru. Awgrymwyd i ni gysylltu gyda Heddlu Gogledd Cymru er mwyn iddynt ymgymryd ar y mesuriadau priodol i ymdrin ar pryder. Rhannwyd dolen Tîm 'Gan Bwyll' sydd yn delio gyda achosion cyffelyb. O ran twmpathau cyflymder, dywedwyd nad oedd gan y gwasanaeth arian penodol wedi'i neilltuo i adeiladu'r math yma o fesurau tawelu traffig ffisegol yn gyffredinol ar eu rhwydwaith. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud cyllid grant ar gael i Awdurdodau Lleol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 i gynnal y math yma o fesurau wrth symud ymlaen. Cytunwyd i lenwi'r ddolen gyda pryder am y cyflymder ffordd yn Stesion ar wefan gan bwyll.

(3) Adroddodd y Cynghorydd Aranli Thomas bod giat parc chwarae Cefn Gwyn yn cael ei chadw'n agored a bod defaid yn mynd yno. Cytunwyd i yrru e-bost i'r Cyngor i ofyn os oes bosib rhoi padlock arni.

(4) Adroddodd y Cynghorydd Sarah Hughes bod y Cneifio Cyflym yn cael ei drefnu ym maes Parcio'r feddygfa ar yr 2il o Awst, a bod asesiad risg yn cael ei drefnu.

(5) Cytunwyd i'r Cynghorydd Enid Roberts brynu 2 fag o bridd a gwerth £5-£10 o flodau.

## 2457 - MATERION AR GYFER Y CYFARFOD NESAF

(1) Cadarnhau Aelodau yr Is-bwyllgorau.

2458 - ADRODDIADAU O’R CYFARFODYDD YN YSTOD Y MIS

1962(1) a 2138 - Adeiladau Cyhoeddus y Pentref - Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones bod un ymgeisydd wedi gwneud cais ar gyfer swydd cyd-lynnydd y Neuadd. Bu problem gyda’r r e-bost er mwyn derbyn y ceisiadau felly rhoddwyd estyniad i'r dyddiad cau tan wythnos y 12fed o Fai. Adroddwyd bod angen cysylltu gyda’r pensaer er mwyn cael arweiniad gyda dechrau ar waith trwsio’r adeilad.

CYFARFOD NESAF Y 4YDD O FEHEFIN 2025.